
Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol


2011 Cyfrifiad Census

# Cyfrifiad 2011

## Adroddiad Cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr







# Crynodeb gweithredol

Y Cyfrifiad o Boblogaeth a Thai yw'r ffynhonnell bwysicaf o wybodaeth am faint a nodweddion adnodd mwyaf gwerthfawr y wlad - ei phobl.

Cynhaliodd rhaglen Cyfrifiad 2011 gyfrifiad yng Nghymru a Lloegr ym mis Mawrth 2011 ac mae'r allbynnau sy'n deillio ohono yn rhoi gwybodaeth am nifer y bobl a nifer y cartrefi a'u nodweddion. Mae'r wybodaeth hon yn amhrisiadwy i lywodraeth ganolog a lleol er mwyn datblygu polisïau a chynllunio a rhedeg gwasanaethau cyhoeddus fel iechyd ac addysg. Mae'r allbynnau hefyd yn cael eu defnyddio'n eang gan academyddion, busnesau, sefydliadau gwirfoddol a'r cyhoedd. Fe'i defnyddir hefyd fel ffynhonnell gyfeirio ar gyfer llawer o gyfresi ystadegol megis amcangyfrifon ac amcanestyniadau o'r boblogaeth ac arolygon sampl.

Mae cynnal cyfrifiad yn dasg enfawr a chymhleth. Gwnaed blynyddoedd o waith cynllunio a phrofi er mwyn paratoi ar gyfer y gweithrediad maes: bu'n rhaid llunio holiaduron, eu profi, eu hargraffu a'u hanfon at fwy na 25 miliwn o gartrefi yng Nghymru a Lloegr; cynhaliwyd yr ymgyrch farchnata fwyaf ar ran y llywodraeth gennym y flwyddyn honno; a chafodd 35,000 o staff maes dros dro eu cyflogi i helpu pobl i gwblhau eu holiadur cyfrifiad. Bu'n rhaid llunio ac adeiladu systemau i brosesu'r data hyn, sicrhau eu hansawdd, cynnal dadansoddiadau ystadegol a llunio a chyhoeddi setiau o ddata ystadegol y mae defnyddwyr am eu cael.

Dechreuodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ryddhau data o Gyfrifiad 2011 ym mis Gorffennaf 2012 ac ers hynny mae wedi cyhoeddi dros 600 o setiau data, gyda thros 8 biliwn o gelloedd data. Erbyn mis Mawrth 2014, roedd tudalennau'r SYG ar gyfer data Cyfrifiad 2011 ar-lein wedi cael eu gweld 2.3 miliwn o weithiau, roedd tudalennau ar ddadansoddiadau o'r cyfrifiad wedi cael eu gweld 500,000 o weithiau ac roedd tudalennau ar ddata'r cyfrifiad ar ffurf delweddau wedi cael eu gweld dros 600,000 o weithiau.

Mae cyhoeddi ar-lein nid yn unig wedi gwneud Cyfrifiad 2011 yn fwy hygyrch i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, mae datblygiadau technolegol wedi ei gwneud yn bosibl i'r SYG gyflwyno data mewn ffyrdd mwy arloesol, gan gynnwys ffeithluniau a delweddu data.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth i gefnogi'r casgliad bod Cyfrifiad 2011 wedi bod yn llwyddiant. Y prif resymau dros y llwyddiant oedd bod rhaglen Cyfrifiad 2011:

- wedi'i chynllunio gan ystyried y defnyddwyr terfynol a'i bod yn glir ynglŷn â'r manteision yr oedd yn rhaid eu gwireddu. Gweithiodd y rhaglen gyfan tuag at gyd-weledigaeth – mae'r cyfrifiad yn helpu i lunio yfory – a gydnabu sut y defnyddir allbynnau ystadegol. Bu'r weledigaeth hon yn sail i frand Cyfrifiad 2011, ein gweithredoedd a'r ffordd yr oeddem yn cyfathrebu â'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd.
- wedi dechrau â meini prawf llwyddiant y cytunwyd arnynt ac a rannwyd, ac a ddefnyddiwyd i lunio'r Cyfrifiad a gwneud penderfyniadau yn ei gylch. Roedd monitro cynnydd yn barhaus, gwerthusiadau o brofiad a rhagymarferion a gwersi a ddysgwyd, yn ogystal â chyflogi digon o bobl â'r sgiliau a'r profiad cywir, oll wedi cyfrannu at y llwyddiant.
- wedi cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid ac wedi datblygu partneriaethau ag awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol. Roedd eu dealltwriaeth o'u hardaloedd lleol a'u cymunedau wedi gwneud cyfraniad allweddol i lwyddiant y cyfrifiad ac fe'i hyrwyddwyd drwy eu sianeli cyfathrebu a chynhaliwyd dros 6,000 o ddigwyddiadau er mwyn helpu i hyrwyddo pwysigrwydd y cyfrifiad

- wedi sicrhau bod cyfrinachedd a diogelwch y wybodaeth a gasglwyd yn y cyfrifiad yn brif flaenoriaeth. Ni fu unrhyw achosion difrifol o ran diogelwch yn ystod gweithrediad maes y cyfrifiad nac ers hynny, sy'n adlewyrchu gwaith cynllunio a rheoli risg cadarn ynghyd â'r camau lliniaru da a oedd ar waith.

At hynny, o ystyried yr argymhelliad gan yr Ystadegydd Cenedlaethol ynglŷn â'r angen am Gyfrifiad yn 2021 (pennod 11), bydd hyn yn ffynhonnell gyfeirio amhrisiadwy wrth ystyried dyluniad a datblygiad y cyfrifiad hwnnw.

## Cyflwyniad a chefndir (pennod 1)

Gwnaeth y gwaith o gynllunio a dylunio Cyfrifiad 2011 ystyried gwersi a ddysgwyd o Gyfrifiad 2001 a'r newidiadau mewn cymdeithas a ddisgwyliwyd rhwng 2001 a 2011. Ymhlith y newidiadau cymdeithasol roedd: poblogaeth sy'n heneiddio; poblogaeth fwy symudol sydd â threfniadau byw mwy cymhleth; niferoedd cynyddol o gymunedau o fewnfudwyr; mwy o bobl yn gyffredinol, a mwy o gartrefi un person ac anheddau amlfeddiannaeth.

Gan ystyried y sylwadau hyn a llawer o sylwadau eraill gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid a gododd o Gyfrifiad 2001, cynlluniwyd Cyfrifiad 2011 ar sail nifer o nodau strategol cyffredinol:

- rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i sicrhau bod y cyfrifiadau cenedlaethol a lleol o'r boblogaeth yn gywir
- creu partneriaethau effeithiol â sefydliadau eraill, yn enwedig awdurdodau lleol, wrth gynllunio a chynnal y gweithrediad maes
- darparu ystadegau sy'n cynnig gwerth am arian, sy'n addas at y diben ac sydd o ansawdd uchel ac sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ac yn ennyn hyder defnyddwyr, ac sy'n gyson, sy'n gymaradwy ac sy'n hygyrch ledled y DU hyd y gellir
- sicrhau'r cyfraddau ymateb cyffredinol mwyaf a lleihau'r gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb mewn ardaloedd penodol ac ymhlith is-grwpiau penodol o'r boblogaeth
- diogelu gwybodaeth bersonol gyfrinachol o'r cyfrifiad a dangos y gwneir hynny

## Ymgynghoriadau a rheoli rhanddeiliaid (pennod 2)

Mae cyfrifiad – sy'n cwmpasu'r boblogaeth gyfan – yn cynnwys nifer eithriadol o fawr o randdeiliaid sydd â gwahanol raddau o ddylanwad a diddordeb. Ar gyfer Cyfrifiad 2011, bu'r SYG yn fwy cyson o ran y ffordd yr oedd yn cyfathrebu â rhanddeiliaid nag y bu mewn cyfrifiadau blaenorol. Yn benodol, dechreuwyd rhaglen o gydgysylltu ag awdurdodau lleol gyda'r nod o:

- gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth awdurdodau lleol o'r cyfrifiad a'r rôl y gall awdurdodau lleol ei chwarae i sicrhau Cyfrifiad llwyddiannus yn 2011
- ennyn hyder ac ymddiriedaeth ym methodoleg y cyfrifiad a'r allbynnau sy'n deillio ohono,
- annog eu cyfranogiad a'u cefnogaeth i'r cyfrifiad, ac wrth wneud hynny cyfrannu at sicrhau bod cwmpas Cyfrifiad 2011 mor eang â phosibl.

At hynny, rhaglen ddwys o gydgysylltu â'r gymuned wedi'i hadeiladu ar y gweithgareddau arloesol a gynhaliwyd er mwyn cydgysylltu â'r gymuned ar gyfer Cyfrifiad 2001.

Cadwodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol mewn cysylltiad yn rheolaidd â defnyddwyr drwy amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys y Grwpiau Cynghori hirsefydledig ar y Cyfrifiad. Bu'r rhain yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr mewn llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, y gymuned academaidd, y sector busnes, sefydliadau sy'n ymwneud ag anghenion amrywiaeth, crefydd, ethnigrwydd ac anghenion arbennig, a defnyddwyr yng Nghymru. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar ofynion penodol yng Nghymru. Yn benodol, trosglwyddodd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau, a wnaed yn 2006, y cyfrifoldeb am wneud Rheoliadau'r cyfrifiad yng Nghymru o San Steffan i Weinidogion Cymru, a rhoddodd yr hawl i'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn rhan o ymgynghoriad ar gynnwys holiadur y cyfrifiad.

Cynhaliwyd nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn pennu gofynion defnyddwyr o ran casglu gwybodaeth o'r cyfrifiad (yn enwedig y cwestiynau hynny sy'n ymwneud ag ethnigrwydd, hunaniaeth, crefydd ac iaith), a'r seiliau daearyddol dros gyflwyno allbwn y cyfrifiad.

O ganlyniad, cafodd cwestiynau newydd eu cynnwys ar hunaniaeth genedlaethol, pasbortau a ddelir (fel mesur dirprwyol o ddinasyddiaeth), blwyddyn y daethant i'r DU ac am ba hyd y maent yn bwriadu aros, iaith, ail gyfeiriad, nifer yr ystafelloedd gwely a mathau o wres canolog. Cafodd rhai o'r cwestiynau rheolaidd eu hehangu i adlewyrchu newid deddfwriaethol a chymdeithasol ers 2001, megis ymestyn y cwestiwn ar statws priodasol i gynnwys partneriaeth sifil, a chynnwys categorïau o ymatebion blwch ticio yn y cwestiwn ynglŷn â grŵp ethnig er mwyn nodi Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, ac Arabiaid.

## Postio a datblygu cofrestr cyfeiriadau (pennod 2)

Ar ôl treialu postio holiaduron cyfrifiad yn llwyddiannus ym Mhrawf Cyfrifiad 2007, mabwysiadodd y SYG bostio fel y brif ffordd o ddosbarthu holiaduron ar gyfer Cyfrifiad 2011. O ganlyniad, roedd cofrestr cyfeiriadau gynhwysfawr o safon uchel ar gyfer pob rhan o Gymru a Lloegr yn ofyniad hollbwysig, gan ei gwneud yn bosibl i holiaduron gael eu nodi'n unigryw a'u cysylltu â chyfeiriad cyn i'r gweithrediad ddechrau.

Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r tri chynnyrch cyfeiriadau cenedlaethol a oedd ar gael bryd hynny yn bodloni targedau ansawdd y SYG, felly bu'n rhaid i'r SYG greu ei chofrestr cyfeiriadau ei hun yn benodol ar gyfer y cyfrifiad. Er mwyn creu hon tynnwyd ynghyd y rhannau gorau o'r rhestrau cenedlaethol: Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y Post Brenhinol, a'r Rhestr Genedlaethol o Dir ac Eiddo a gynhelir gan lywodraeth leol. Cafodd y rhestr o gyfeiriadau a ddefnyddiwyd eu tynnu dri mis cyn diwrnod y cyfrifiad, ond roedd yn cynnwys rhai enghreifftiau o eiddo yr oedd yn disgwyl iddynt gael eu hadeiladu erbyn diwrnod y cyfrifiad.

## Cyhoeddusrwydd (pennod 2)

Mae pob cyfrifiad yn cyflwyno her unigryw o ran ymgyrch cyfathrebu marchnata gan fod angen ymgysylltu â phob cartref yng Nghymru a Lloegr a'u cymell i lenwi eu holiadur cyfrifiad. Dibynnodd llwyddiant y cyfrifiad ar gysylltu â phob cartref yng Nghymru a Lloegr, a'r gynulleidfa darged ar gyfer yr ymgyrch cyhoeddusrwydd oedd, i bob diben, bawb. Fodd bynnag, oherwydd amrywiaeth cynyddol cartrefi, bu cysylltu o'r fath â grwpiau poblogaeth allweddol megis lleiafrifoedd ethnig, mewnfudwyr ac oedolion ifanc – sef rhai o'r union grwpiau y mae'n hollbwysig cael gwybodaeth cyfrifiad yn eu cylch, yn dasg anodd

Un o ganfyddiadau allweddol 2001 a'r gwaith ymchwil canlyniadol oedd bod cyfran fawr o'r boblogaeth yn fodlon cwblhau'r cyfrifiad os oeddent yn deall beth ydoedd, a'u rhwymedigaethau fel dinesydd. Un o'r argymhellion ar gyfer 2011 oedd dyrannu adnoddau

lle yr oedd eu hangen fwyaf, cyfathrebu i ryw raddau â'r rhai nad oeddent wedi penderfynu, a'r grwpiau anodd eu cyrraedd i raddau llawer mwy.

Y llwyfan creadigol ar gyfer ymgyrch Cyfrifiad 2011 oedd cysyniad *'Helpu i lunio'r dyfodol'*. Roedd yr alwad syml hon yn gweithredu'n llythrennol fel gwahoddiad i bawb gymryd rhan i lunio dyfodol eu hamgylchedd lleol, mewn popeth o wasanaethau allweddol megis iechyd ac addysg i barciau a chyfleusterau lleol.

## Contractau allanol (pennod 2)

Fel gyda Chyfrifiad 2001, ymrwymodd y SYG i gontractau allanol ar gyfer nifer o wasanaethau. Gwerth rhoi contractau allanol ar gyfer rhai gweithgareddau a phrosesau'r cyfrifiad i gyflenwyr allanol yw bod sefydliadau o'r fath yn cynnig cryn brofiad ac arbenigedd technegol. O ystyried cylch deng mlynedd y Cyfrifiad, a'r amserlen fer a oedd yn gofyn am weithlu dros dro mawr, ni fyddai wedi bod yn briodol i'r SYG recriwtio na hyfforddi'r fath bersonél ei hun.

Ymhlith y gweithgareddau y lluniwyd contractau allanol ar eu cyfer yn 2011 roedd y canlynol:

- recriwtio, hyfforddi a thalu staff maes*
- argraffau'r holiaduron
- dosbarthu holiaduron* a chasglu ffurflenni wedi'u llenwi drwy wasanaeth post
- cynllunio systemau olrhain holiaduron*
- darparu system cwblhau holiaduron ar-lein*
- canolfan gyswllt
- cyfieithu, argraffu a dosbarthu deunydd nad oes a wnelo â'r holiadur a gwasanaethau logisteg maes eraill
- yr ymgyrch cyhoeddusrwydd
- cipio a chodio data'r cyfrifiad yn electronig
- cynhyrchu cofnodion archif;
- datblygu system mynediad data ar y we*

Y gweithgareddau â (*) yw'r rhai a gafodd eu rhoi ar gontract allanol am y tro cyntaf ar gyfer Cyfrifiad 2011.

## Casglu ffurflenni wedi'u llenwi (pennod 3)

Am y tro cyntaf yng Nghymru a Lloegr, cynigiodd Cyfrifiad 2011 gyfle i gartrefi ac unigolion gwblhau eu ffurflen ar-lein, yn lle'r holiadur traddodiadol ar bapur. Cwblhawyd tua 16.4 y cant o ffurflenni drwy'r cyfrifiad ar-lein diogel; dychwelwyd y rhan fwyaf o holiaduron wedi'u cwblhau drwy'r post, fel y digwyddodd yn 2001. Barnwyd bod y gwasanaeth ar-lein yn llwyddiant, gan gynnig nifer o fanteision ar gyfer y broses casglu data:

- bodlonodd ddisgwyliadau'r cyhoedd a rhanddeiliaid y cyfrifiad ar gyfer holiadur ar-lein
- bu'n amgylchedd lle y gellid bod wedi diogelu gwybodaeth y cyfrifiad yn well
- llwyddodd i wella cyfraddau ymateb cyffredinol drwy gynnig dull amgen i ddeiliaid cartrefi a oedd yn llai tueddol o gwblhau holiadur papur o bosibl
- sicrhaodd gyfrifiad mwy hygyrch i'r gymuned anabl;
- gwnaeth osgoi'r angen am sganio a chipio cyfran sylweddol o'r ffurflenni, a thrwy hynny gyflymu a lleihau cost prosesu data

Cynhaliwyd rhaglen ddwys o gartrefi dilynol na chafwyd holiaduron wedi'u cwblhau ganddynt - sef cam hanfodol er mwyn sicrhau bod y cyfrifiad yn cyflawni ei dargedau cyffredinol o ran ansawdd. Drwy bostio holiaduron bu modd i'r gweithgarwch maes gael ei ddylunio ar sail y gweithgarwch dilynol a chanolbwyntio mwy o adnoddau ar gyfeiriadau nad oeddent wedi dychwelyd ffurflen. Er mwyn hwyluso hyn, datblygwyd system olrhain holiaduron a oedd yn ei gwneud yn bosibl i'r cynnydd cyfrifo gael ei asesu mewn amser real, a olygai y gellid cyfeirio staff maes at ardaloedd a chyfeiriadau lle roedd eu hangen fwyaf.

Cafodd gweithdrefnau cyfrifo arbennig eu mabwysiadu i ddosbarthu a chasglu holiaduron gan sefydliadau cymunedol a safleoedd llety arbennig megis parciau carafannau, marinas, gwersylloedd Sipsiwn a chan grwpiau poblogaeth arbennig megis pobl sy'n cysgu ar y stryd.

Cyflawnodd y SYG ei darged ar gyfer cyfraddau ymateb i Gyfrifiad 2011. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 94 y cant gydag o leiaf 80 y cant ym mhob ardal awdurdod lleol. At hynny, roedd gan lai na 5 y cant o ardaloedd awdurdod lleol gyfradd ymateb i'r cyfrifiad o lai na 90 y cant.

## Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad (pennod 4)

Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad yw'r brif ffordd o gadarnhau graddau a dosbarthiad unrhyw dangyfrif (neu orgygrif) mewn cyfrifiad. Arolwg samplu ar wahân oedd Arolwg Cwmpas Cyfrifiad 2011, a gynhaliwyd dros gyfnod o dair neu bedair wythnos ar ôl i waith maes y cyfrifiad ei hun ddod i ben. Roedd ar ffurf cyfweliad byr i gadarnhau cwmpas cartrefi a phobl o fewn cartrefi, a chasglu rhai nodweddion demograffig sylfaenol (megis oedran, rhyw, statws priodasol, grŵp ethnig a gweithgarwch economaidd). Cafodd y wybodaeth a gafwyd yn yr arolwg ei ddefnyddio, ar y cyd â data'r cyfrifiad, i lunio cyfres gyson o ganlyniadau cyfrifiad, wedi'i haddasu ar gyfer cwmpas annigonol (neu gwmpas gormodol).

Dilynodd cynllun a gweithrediad Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad 2011 arolwg llwyddiannus 2001, a sicrhaodd gyfradd cwblhau cyfweliadau o 90.8 y cant. Gwnaed gwelliannau ar gyfer 2011 megis gwaith maes estynedig ar gyfer ardaloedd lle bu ymateb isel, ac oriau gweithio hyblyg i gyfwelwyr er mwyn cysylltu ag aelodau cartrefi. Arweiniodd hyn at gyfradd cwblhau cyfweliadau o 90.4 y cant yn 2011, er i'r sampl gael ei aflunio dipyn yn fwy tuag at ardaloedd anos eu cyfrif na'r hyn a ddigwyddodd yn 2001.

## Prosesu data (pennod 5)

Fel y digwyddodd yn 2001, cafodd Cyfrifiad 2011 ei brosesu ar dri phrif gam:

- *Prosesu mewnbwn* – a oedd wedi cynnwys y prif gamau cipio a chodio data
- *Prosesu eilaidd* – y cam golygu a mewngofnodi ochr yn ochr â'r broses o asesu cwmpas ac addasu, sy'n cael ei gwblhau drwy fesurau rheoli datgelu ystadegol
- *Prosesu allbwn* –creu cronfa ddata allbynnau, y cynhyrchwyd holl ganlyniadau'r cyfrifiad ohoni

Dechreuodd gwaith prosesu data drwy sganio'r holiaduron a chipio eu data'n awtomatig. Cafodd y data eu dilysu er mwyn sicrhau bod y gwerthoedd ar gyfer pob cwestiwn o fewn amrediad a bennwyd yn y ffrâm codio perthnasol ac na fud unrhyw ymatebion dyblyg. Neilltuwyd gwerthoedd rhifol i destun ysgrifenedig a blychau wedi'u ticio gan godwyr, gan gymhwyso rheolau codio a fframiau codio cenedlaethol safonol, megis SIC07 (Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 2007) a SOC2010 (Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2010).

Mae ymatebwyr i unrhyw gyfrifiad yn gwneud camgymeriadau yn eu hatebion weithiau. Mae hyn yn arwain at ddata coll neu ymatebion annilys sy'n anghyson â gwerthoedd eraill ar yr holiadur. Defnyddiwyd dull golygu a mewngofnodi i gywiro anghysondebau ac amcangyfrif data coll tra'n cadw'r cydberthnasau rhwng nodweddion y cyfrifiad.

Bu'r asesiad o gwmpas a'r gweithrediad addasu yn fodd i'r SYG addasu ar gyfer nifer y bobl a'r cartrefi nas cyfrifwyd yng Nghyfrifiad 2011. Nodwyd graddau'r tangyfrif hwn drwy ddefnyddio Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad ar ôl cyfrif (a gwmpaswyd tua 340,000 o gartrefi). Yna defnyddiwyd technegau amcangyfrif ystadegol safonol i lunio cronfeydd data wedi'u haddasu y cynhyrchwyd canlyniadau'r cyfrifiad terfynol ohonynt. Bu'r canlyniadau hyn hefyd yn sail newydd 2011 ar gyfer yr amcangyfrifon o'r boblogaeth yng nghanol y flwyddyn gan y SYG.

Cafodd gweithdrefnau sicrhau ansawdd eu hymgorffori ar bob cam prosesu data a bu amcangyfrifon Cyfrifiad 2011 yn destun proses Sicrhau Ansawdd drylwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gredadwy ac o'r maint cywir yn gyffredinol.

Yn gyffredinol roedd y dulliau a'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i gipio, glanhau, dilysu a sicrhau ansawdd canlyniadau'r cyfrifiad yn dryloyw ac yn ennyn hyder defnyddwyr yn y broses ac felly ganlyniadau'r cyfrifiad.

## Cyfrinachedd a diogelwch (pennod 6)

Mae'r SYG yn cydnabod bod angen i'r cyhoedd fod yn hyderus y caiff gwybodaeth bersonol a gesglir yn y cyfrifiad ei dal yn ddiogel. Fel mewn cyfrifiadau blaenorol, tawelir meddyliau'r cyhoedd y caiff yr holl wybodaeth a roddir ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

Cynhaliwyd adolygiad sicrwydd gwybodaeth annibynnol cyn ac yn ystod gweithrediad y cyfrifiad, gan gwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau cynllunio, rheoli a gweithredu. Nododd tîm yr adolygiad, o'r cychwyn, fod sicrhau diogelwch gwybodaeth bersonol a ddarparwyd gan y cyhoedd yn un o'r amcanion craidd wrth gynllunio Cyfrifiad 2011. Daeth i'r casgliad:

"*O ganlyniad i'n hadolygiad, rydym yn fodlon iawn bod tair Swyddfa'r Cyfrifiad yn rheoli Sicrwydd Gwybodaeth mewn ffordd ymarferol, priodol a chost-effeithiol. Felly, rydym yn hyderus eu bod yn gallu cyflawni eu hamcanion o ran Sicrwydd Gwybodaeth ac y caiff y wybodaeth honno ei dal mewn amgylcheddau diogelu ac y caiff ei thrafod yn unol ag arfer gorau a safonau'r Llywodraeth. Gellir tawelu meddwl y cyhoedd y caiff y wybodaeth a ddarperir ganddynt i Gyfrifiad 2011 ei diogelu'n dda."*

Caiff y wybodaeth a gesglir yng Nghyfrifiad 2011 ei defnyddio i gynhyrchu ystadegau ac ymchwil ystadegol yn unig. Cymhwysodd y SYG broses rheoli datgelu ystadegol ac addaswyd ychydig o'r data cyn i'r ystadegau gael eu rhyddhau. Y dull a ddefnyddiwyd oedd cyfnewid cofnodion, sydd bob amser yn cyflwyno rhywfaint o ansicrwydd ynghylch p'un ai'r gwir werth yw gwerth unrhyw gyfrif bach penodol. Bu'r mesurau hyn yn foddhaol o ran diogelu cyfrinachedd ystadegol o fewn allbynnau cyhoeddedig y cyfrifiad. Roedd lefel y manylion a oedd ar gael ychydig yn llai (o ran nifer y rhesi a nifer y colofnau) mewn llawer o dablau o gymharu ag allbynnau cyfatebol yn 2001 ond un o'r manteision oedd ei fod yn rhoi llawer mwy o fanylion drwy gynnwys cyfrifau bach.

## Lledaenu allbynnau a gynhyrchwyd a gwaith dadansoddi (pennod 7)

Mae Cyfrifiad 2011 yn darparu'r set fwyaf cymhleth a chynhwysfawr o wybodaeth am y boblogaeth a luniwyd erioed. Mae'r twf diweddar yn y galw am wybodaeth, yn enwedig drwy'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol, wedi arwain at ddisgwyliadau mawr ymhlith defnyddwyr o ran cynnwys a chyflawni sy'n cynnwys cydweithredu a chyfranogiad defnyddwyr.

Dim ond pan fydd defnyddwyr data'r cyfrifiad yn gwneud defnydd o'r allbynnau cyhoeddedig y caiff manteision y cyfrifiad yn y pen draw eu gwireddu. Felly dim ond os bydd y canlyniadau yn hygyrch a bod yr allbynnau a gynhyrchwyd yn diwallu anghenion defnyddwyr y gellir cyfiawnhau'r amser a'r adnoddau a fuddsoddwyd mewn cyfrifiad.
Y weledigaeth ar gyfer 2011 oedd mai'r we fyddai'r prif lwybr lledaenu, ac y byddai'n cynnig gwefan a fyddai'n hawdd i ddefnyddwyr ei gwe-lywio a'i gweithredu er mwyn creu allbynnau, siartiau a mapio thematig pwrpasol. Er mwyn cyflawni hyn, ychwanegwyd at wasanaethau gwe presennol y SYG a dechreuwyd rhaglen Mynediad Data ar y We i ddarparu'r dulliau newydd o weithredu gwefan y SYG. Y sianeli hyn oedd y prif gyfrwng i gyhoeddi cynhyrchion safonol y cyfrifiad gan gynnwys dros 600 o setiau data, gyda thros 8 biliwn o gelloedd o ddata, sydd dipyn yn fwy na'r 360 o setiau data a gyhoeddwyd o Gyfrifiad 2001 ar yr un adeg gymharol 10 mlynedd yn ôl.

Mae datblygiadau technolegol wedi galluogi'r SYG i gyflwyno data mewn ffyrdd mwy arloesol, gan gynnwys ffeithluniau a delweddu data. Mae ffeithluniau yn enwedig yn ffordd effeithiol o grynhoi data'r cyfrifiad a thynnu sylw at ffeithiau allweddol. Yn yr un modd, mae delweddu data yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr ystyried newidynnau gwahanol a chael mwy o reolaeth dros yr hyn y maent am ei weld. O ganlyniad i Gyfrifiad 2011 mae data yn fwy perthnasol i gynulleidfa ehangach, fel y tystia'r niferoedd mawr o bobl sy'n edrych ar y data ac sy'n defnyddio adnoddau ar-lein.

Mae'r SYG wedi anelu at fodloni gofynion defnyddwyr o ran darparu ystadegau, ar lefelau amrywiol o fanylder, ar gyfer nifer o ddaearyddiaethau, yn amodol ar y gofyniad hollbwysig i sicrhau cyfrinachedd ystadegol. Cafodd y daearyddiaethau hyn eu creu yn y bôn o'r un conglfeini ag yng Nghyfrifiad 2001 – yr ardaloedd cynnyrch, sef yr ardal leiaf y gellir rhyddhau ystadegau cyfrifiad (ac eithrio cyfrifon pen syml) ar ei chyfer heb fod yn ddatgelol.

Mae'r SYG unwaith eto wedi cynhyrchu cynhyrchion mwy arbenigol, gan gynnwys samplau o gofnodion dienw (y cyfeirir atynt fel 'ffeiliau microddata') ac ystadegau tarddiad-cyrchfan.

Bu rhaglen dadansoddi Cyfrifiad 2011 yn welliant ar gyfrifiadau blaenorol drwy gyhoeddi dadansoddiadau amserol, llawn gwybodaeth o ddata'r cyfrifiad. Goruchwyliwyd y rhaglen hon gan dîm yn y SYG a oedd yn gyfrifol am gydgysylltu, datblygu, cyhoeddi ac amseru allbynnau dadansoddiadol. Er mwyn cyflawni hyn gweithiodd yn agos â'r tîm a oedd yn ymgynghori â defnyddwyr ynglŷn â'u hanghenion a helpodd i nodi'r allbynnau. Mabwysiadwyd pum prif ddull o baratoi dadansoddiadau a arddangosodd ddata'r cyfrifiad: storïau, crynodebau, ffeithluniau, podlediadau fideo, a chynnwys rhyngweithiol. Mae Pennod 9 yn cynnwys dadansoddiadau dethol o bynciau'r cyfrifiad.

## Ansawdd data (pennod 8)

Mae llwyddiant unrhyw gyfrifiad yn dibynnu ar sicrhau canlyniadau perthnasol mewn niferoedd digonol pan fydd eu hangen. Mae hysbysu defnyddwyr ynglŷn ag ansawdd y data, ac felly eu cyfyngiadau, hefyd yn hollbwysig er mwyn helpu defnyddwyr i ddehongli a deall y canlyniadau.

Defnyddiwyd dangosyddion amrywiol o ansawdd data i lywio rhaglen Cyfrifiad 2011 wrth ei dylunio ac wrth wneud penderfyniadau. Nod cyffredinol y dangosyddion hyn oedd gwneud cystal o leiaf â mesurau tebyg yn 2001. Yn gryno:

- y cyfwng hyder 95 y cant a gyflawnwyd ar yr amcangyfrif o'r boblogaeth oedd +/- 0.15 y cant (83,000 o bobl), dipyn yn gulach na'r cyfwng hyder yn 2001 sef +/- 0.21 y cant (+/-109,300 o bobl) sy'n nodi amcangyfrifon mwy cywir o'r boblogaeth.
- roedd gan 97 y cant o awdurdodau lleol gyfwng hyder 95 y cant o +/- 3 y cant neu'n well, o gymharu â 94 y cant o awdurdodau lleol yn 2001
- y gyfradd ymateb gyffredinol i Gymru a Lloegr yn 2011 oedd 93.9 y cant, ychydig yn well na chyfradd ymateb gyffredinol 2001 sef 93.7 y cant,
- roedd gan bob ALl gyfradd ymateb uwchlaw 80 y cant a dim ond 13 oedd â chyfradd ymateb islaw 90 y cant, o gymharu â 2001 lle roedd 13 o awdurdodau lleol islaw 80 y cant ac roedd 38 islaw 90 y cant.

Yn seiliedig ar y dangosyddion hyn mae'r nod cyffredinol o gynnal neu wella ansawdd data o gymharu â 2001 wedi bod yn llwyddiannus iawn. O ystyried y duedd bod llai o bobl yn ymateb i arolygon cymdeithasol, ac yn cymryd rhan ynddynt a'r cyfrifiadau blaenorol dros y tri degawd diwethaf, roedd y rhain yn dargedau heriol y mae'r cyfrifiad wedi eu cyflawni.

## Gwerthuso Cyfrifiad 2011 (pennod 10)

Mae'r Adroddiad Cyffredinol hwn yn cynnwys gwybodaeth am y broses o gynllunio a chynnal Cyfrifiad 2011 yng Nghymru a Lloegr a'i ganlyniadau. Nodwyd bod sawl agwedd ar y cyfrifiad hwn wedi bod yn arloesol ac yn llwyddiannus, gan gynnwys:

- ymgysylltu'n well â defnyddwyr a rhanddeiliaid, yn enwedig awdurdodau lleol, sydd wedi ennyn mwy o gefnogaeth a hyder yn y cyfrifiad.
- datblygu cofrestr cyfeiriadau bwrpasol i hwyluso'r broses o bostio holiaduron a gwella'r ffordd y caiff y gweithrediad maes ei reoli, gan gynnwys olrhain holiaduraon
- defnyddio llai o staff maes ond staff mwy hyblyg ac arbenigol, er mwyn sicrhau bod mwy o adnoddau yn cael eu canolbwyntio ar gyflawni cyfraddau ymateb uwch mewn ardaloedd sy'n anodd eu cyfrif.
- cyflwyno cyfrifiad ar-lein diogel
- gwella cyfraddau ymateb cyffredinol a llwyddo i leihau'r gwahaniaeth o ran cyfraddau dim ymateb ym mhob ardal awdurdod lleol,
- a lledaenu amrywiaeth cynyddol o ganlyniadau a dadansoddiad ynglŷn â'r cyfrifiad yn fwy hyblyg mewn cyfres o wefannau'r SYG

Mae'n nodi hefyd bod nifer o heriau a gwersi i'w dysgu, fel sydd bob amser yn wir am unrhyw gyfrifiad, ar gyfer unrhyw weithrediad cyfrifiad tebyg yn y dyfodol. Crynhoir prif gasgliadau gwerthusiadau sawl elfen fawr ac arloesol o Raglen Cyfrifiad 2011 yn themâu, gan gynnwys:

- prosesau rheoli a llywodraethu rhaglenni
- datblygu cofrestr cyfeiriadau
- rheoli rhanddeiliaid a'r broses seneddol
- casglu data a'r gweithrediad maes
- prosesu data a methodoleg ystadegol
- allbwn, paratoi cynnwys, a'i ledaenu

## Y tu hwnt i 2011 (pennod 11)

O ystyried y symiau sylweddol o arian cyhoeddus a werir ar bob cyfrifiad, mae'r SYG yn cynnal ymchwiliadau rheolaidd i'r angen am gasglu gwybodaeth o'r fath, ac effeithiolrwydd unrhyw ddulliau amgen. Cynhaliwyd adolygiadau o'r fath, er enghraifft, cyn Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011.

Yn ystod y cyfnod paratoi cyn Cyfrifiad 2011, sefydlodd y SYG raglen adolygu arall i asesu a oedd unrhyw un o'r dulliau amgen o gasglu gwybodaeth sy'n debyg i wybodaeth y cyfrifiad yn ddichonadwy bellach. Ynghyd â Chofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ymchwil Ystadegau Gogledd Iwerddon, dechreuodd y SYG brawf 'Y Tu hwnt i Brosiect 2011' er mwyn profi modelau eraill o lunio ystadegau ynglŷn â'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol-ddemograffig. Mae gwelliannau mewn technoleg ac yn ffynonellau data'r llywodraeth yn cynnig y cyfle i foderneiddio'r cyfrifiad, neu i ddatblygu dull arall sy'n ailddefnyddio data gweinyddol sydd gan y llywodraeth eisoes.

Bu ymgynghoriad helaeth â defnyddwyr yn fodd i lywio'r asesiad o'r opsiynau, yn ogystal ag argymhelliad terfynol yr Ystadegydd Cenedlaethol sef:

- cyfrifiad ar-lein o bob cartref a sefydliad cymunedol yng Nghymru a Lloegr a ddylai gael ei gynnal yn 2021, fel olynydd modern i'r cyfrifiad papur traddodiadol bob deng mlynedd, gan gymryd gofal arbennig i helpu'r rhai na allant gwblhau'r cyfrifiad ar-lein,
- y dylai fod mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol ac arolygon er mwyn gwella'r ystadegau ar ôl Cyfrifiad 2021 a gwella ystadegau rhwng cyfrifiadau

Yr Adroddiad Cyffredinol yw cyfrif swyddogol a chynhwysfawr y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Mae gwybodaeth o’r cyfrifiad bob deng mlynedd yn sail i bolisi cyhoeddus a darpariaeth gwasanaethau, yn y sector cyhoeddus ac yn y sector preifat. Bydd canlyniadau'r cyfrifiad yn sail i benderfyniadau allweddol a gynhelir drwy gydol y degawd.

Mae'r adroddiad yn adolygu'r cyfrifiad cyfan o'r camau ymgynghori a chynllunio cynnar i'r gweithgareddau maes a phrosesu data, gan gynnwys cipio data a chodio holiaduron a’r addasiad llawn o gyfrifiadau'r cyfrifiad, i'r broses o gynhyrchu a lledaenu allbynnau a gwaith gwerthuso.

Mae'n darparu cyfoeth o fanylion ynglŷn â'r modd y cafodd y cyfrifiad ei gynnal a pha wersi sydd wedi'u dysgu ar gyfer cynllunio'r cyfrifiad nesaf. Mae wedi'i anelu at ddefnyddiwr cyson ac achlysurol o ddata'r cyfrifiad, ond y gobaith yw y gall hefyd fod yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth i'r cyhoedd yn ehangach.

Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol

www.ons.gov.uk

Argraffwyd ym Mhrydain Fawr